# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 24AIN IONAWR, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019)

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Steve Collings
E. Selwyn Griffiths
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands
Cemlyn Rees Williams
Aled Ll. Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson
Sedd Wag - Plaid Cymru

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Keith Jones
Elfed Powell Roberts
Elwyn Jones
Beth Lawton

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Gareth Williams

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

| | |
|---|---|
| Anest Gray Frazer | Eglwys yng Nghymru |
| [sedd wag] | Yr Eglwys Gatholig |
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Karen Vaughan Jones | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor |
| [sedd wag] | Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Dilwyn Elis Hughes | UCAC |
| David Healey | ATL |

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 6 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. CANLYNIADAU TERFYNOL HAF 2018 11 - 19

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

<u>*10.00yb – 10.45yb</u>

## 6. AILSTRWYTHURO CANOLFANNAU IAITH 20 - 26

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

<u>*10.45yb – 11.30yb</u>

## 7. CANOLFANNAU BYW'N IACH 27 - 32

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

<u>*11.30yb – 12.15yp</u>


*amcangyfrif o'r amseroedd

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 22/11/18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Elfed Roberts, Mair Rowlands, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

**Aelodau Cyfetholedig**: Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Llyr Jones (Uwch Reolwr Economi ac Adfywio)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:**
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Bethan Griffith (Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Keith Jones, Dewi Owen a Paul Rowlinson (Is-gadeirydd);
Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a David Healey (ATL);
Y Cynghorwyr Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant) a Gareth Thomas (Addysg).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn Eitem 7 – Rôl Swyddogion Adfywio Bro i'r Dyfodol, oherwydd bod ei fab yn gweithio yn yr Uned Economi a bod posibilrwydd y bydd yn gyfrifol am yr Uned Adfywio Cymunedol i'r dyfodol.

Datganodd y Cynghorydd Aled Evans fuddiant personol yn Eitem 7 – Rôl Swyddogion Adfywio Bro i'r Dyfodol, oherwydd bod perthynas iddo yn gweithio yn yr Uned Adfywio Bro.

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Medi ac 15 Hydref (Cyfarfod Arbennig), 2018, fel rhai cywir.

## 5. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi ynghyd â chyflwyniad sleidiau gan yr Uwch Reolwr Economi ac Adfywio yn olrhain hanes Harbwr a Hafan Pwllheli ers y 1990au cynnar, yn amlinellu'r ystyriaethau perthnasol ac yn manylu ar y gwaith sydd wedi digwydd hyd yma o safbwynt datblygu opsiynau ar y safle, yn sgil tuedd gostyngol yn incwm yr Hafan ers 2008/09. Gwahoddwyd y pwyllgor craffu i ystyried y gwaith hwnnw a gofynnwyd i'r aelodau a oeddent yn cytuno:-

- Gyda'r amcanion craidd a gynigiwyd ar gyfer gwerthuso'r sefyllfa bresennol a'r opsiynau amgen i'r dyfodol.
- Bod achos dros newid.
- Gyda'r argymhellion i ddatblygu 4 opsiwn ymhellach.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Reolwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y pwyllgor o'r farn bod achos dros newid a hynny oherwydd bod y sefyllfa bresennol, gyda'r tuedd gostyngol yn incwm a defnydd yr Hafan a'r Harbwr, yn arwain at risg o fethu cyflawni amcan craidd yr Hafan o fod yn sbardun economaidd, yn arbennig i ardal Pwllheli, ac felly'n anghynaladwy.
- Bod y pwyllgor yn cyd-fynd â'r opsiynau i wneud gwaith pellach a bod yna negeseuon allweddol i'r gwasanaeth eu hystyried wrth gyflawni'r gwaith hwnnw, yn benodol o safbwynt edrych sut y gellir buddsoddi ymhellach er mwyn gwneud yr Hafan a'r Harbwr yn hyfyw a cheisio datrysiad i'r sefyllfa carthu a gwaredu gwaddod yn y tymor byr a'r hir dymor. Dylid ystyried hefyd oes gwersi i'w dysgu gan awdurdodau eraill o safbwynt gwaredu'r gwaddod.
- O safbwynt yr opsiwn o gadw'r incwm net o £400k y rhagwelir y bydd yr Hafan yn ei ddychwelyd eleni, bod y pwyllgor o'r farn bod rhaid bod yn agored, ar y naill law, i beth fyddai effaith hynny ar weddill gwasanaethau'r Cyngor, ac ar y llaw arall, i beth fyddai effaith peidio gwneud hynny ar economi ardal Pwllheli, a'r perygl o golli'r marina yn y pen draw.
- Bod neges hefyd o ran yr angen i ddeall gofynion y cwsmer er mwyn gallu ymateb iddynt ac y dylai'r opsiynau edrych ar sut i farchnata a chadw'r safle'n hyfyw, ayb.

- Y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor hwn maes o law ar ôl datblygu'r gwahanol opsiynau mewn mwy o fanylder.

## 6. CEFNOGI BUSNESAU GWYNEDD (YNG NGHYSWLLT BREXIT)

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi yn manylu ar sut mae'r Cyngor a sefydliadau eraill yn cefnogi busnesau lleol yn gyffredinol ac mewn ymateb i Brexit.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y sylwadau a gyflwynwyd yn adlewyrchu ei bod yn parhau'n gyfnod dyrys o ansicrwydd. Cydnabyddir ei bod yn anodd iawn cefnogi busnes yn yr hinsawdd bresennol oherwydd y diffyg gwybodaeth, ac ati, ond croesawir y ffaith bod busnesau risg uchel yn cael eu targedu er mwyn ceisio gweld oes yna unrhyw beth arall y gall y Cyngor ei wneud i'w cynorthwyo. Cydnabyddir hefyd bod amseru'r drafodaeth yn anodd a bod rhaid osgoi creu dryswch rhag rhoi camarweiniad.
- Bod yna awydd gan aelodau'r pwyllgor i'r Adran ystyried ymhellach sut i gefnogi'r busnesau lleiaf yng Ngwynedd, ac efallai rhoi hysbysrwydd neu ehangu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol er mwyn uchafu'r wybodaeth sydd ar gael a'r hyn mae pobl yn gwybod am y gefnogaeth sy'n bodoli eisoes, neu efallai dreialu sgyrsiau mewn cymunedau llai.
- Bod awydd hefyd gan aelodau'r pwyllgor i'r Adran ystyried oes yna gapasiti i roi diweddariad i'r cynghorau cymuned fel eu bod hwythau'n ymwybodol o'r hyn sydd ar gael o ran cefnogaeth gan y Cyngor.
- Y gofynnir i'r Gwasanaeth roi gwybod i'r aelodau am unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn, e.e. trwy Rhaeadr, yn hytrach nag aros o un pwyllgor craffu i'r nesaf.

## 7. RÔL SWYDDOGION ADFYWIO BRO I'R DYFODOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn gwahodd barn y pwyllgor ar 2 opsiwn i wneud y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau'r Tîm Swyddogion Adfywio Bro i'r dyfodol, sef:-

- Opsiwn 1 – cyfuno rôl y Tîm Adfywio Cymunedol gyda thimau eraill o fewn y Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd.
- Opsiwn 2 – cadw tîm bychan gyda'i gilydd er mwyn cadw'r pwyslais ar gefnogi cymunedau i gyflawni.

Gofynnwyd hefyd am sylwadau'r pwyllgor ar yr argymhellion a ganlyn:-

- Ail-ddiffinio rôl Swyddogion Adfywio Bro i fod yn Swyddogion Cefnogi Cymunedau fyddai'n ymgorffori rôl cyswllt â'r Cynghorau Cymuned a'r Trydydd Sector.
- Bod swyddog cyswllt yn cael ei adnabod i gymunedau unigol, ond bod y swyddogion yn gweithio yn fwy fel tîm sirol, er mwyn manteisio ar sgiliau a chryfderau penodol gwahanol aelodau o'r tîm.

- Bod y tîm yn cryfhau'r cyswllt gyda'r llyfrgelloedd er mwyn hyrwyddo mynediad cymunedau i ffynonellau gwybodaeth a chymorth i'r dyfodol.

Dosbarthwyd copïau o Raglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol i'r aelodau yn y cyfarfod.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaeth ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod yna gefnogaeth yn gyffredinol i opsiwn 2, ar y sail y byddai hynny'n creu adnodd fyddai'n galluogi i'r Cyngor gynnal perthynas gyda'r cymunedau ar ystod ehangach o raglenni a ddim yn eu cyfyngu i raglenni sydd yn cyfrannu i amcanion adfywio a datblygu'r economi yn unig.
- Bod cefnogaeth hefyd i beilota'r cynllun gyda'r llyfrgelloedd fel canolfan ffynonellau gwybodaeth.

## 8. DYLEDION CINIO YSGOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar gais y Cadeirydd yn manylu ar y sefyllfa dyledion cinio ysgol, y prosesau sydd wedi bod yn weithredol er mwyn ymateb i'r sefyllfa o ddyledion, ynghyd â'r camau pellach y mae'r Adran wedi, ac yn bwriadu, eu gweithredu er mwyn ymateb yn briodol i'r sefyllfa, gan leihau dyledion cinio ysgol dros amser.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Swyddog ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwall yn y ffigurau yn y fersiwn Saesneg o'r golofn '*Gwerth anfonebau a godwyd yn y flwyddyn'* yn Nhabl B o dan paragraff 4.1 o'r adroddiad (tudalen 29 o'r rhaglen) a bod y ffigurau cywir fel a ganlyn:-

| **Blwyddyn** | Gwerth anfonebau a godwyd yn y flwyddyn |
|---|---|
| **2013/14** | £21,937.80 |
| **2014/15** | £26,600.12 |
| **2015/16** | £29,254.63 |
| **2016/17** | £36,634.45 |
| **2017/18** | £39,576.81 |

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y pwyllgor yn gefnogol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran targedu cymorth i'r ysgolion hynny sydd â'r dyledion mwyaf i sicrhau eu bod yn dilyn y drefn a bod y penaethiaid yn cymryd cyfrifoldeb ac yn deall beth sydd i fod i ddigwydd o safbwynt y trefniadau.
- Bod cefnogaeth hefyd i edrych ar ddod â'r Awdurdod yn rhan o'r broses mor fuan â phosib', a hynny'n cynnwys monitro'r sefyllfa'n gyson, gan edrych a oes yna rôl ganolog i'r Awdurdod, yn hytrach na bod hyn yn digwydd fesul ysgol.
- Bod cefnogaeth hefyd i fwriad yr Adran i edrych a oes modd paratoi pecyn i gynorthwyo'r teuluoedd hynny sy'n cael problemau talu.

- Y gofynnir i'r Adran ystyried a oes modd gwneud gwaith pellach i weld beth, os o gwbl, yw'r cyswllt rhwng y codiad ym mhris cinio ysgol a'r lefelau dyled.
- Bod cefnogaeth gref i fynd i'r afael â'r sefyllfa mor fuan â phosib', fel mae'r Adran wedi cychwyn gwneud eisoes, fel bod llai o deuluoedd yn mynd i ddyled.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2.25yp
(gyda thoriad o 45 munud am ginio).

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad ar ganlyniadau'r haf 2018 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Ionawr 2019 |
| **Swyddog Perthnasol** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CYD-DESTUN**

***Data Cymharol***

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn wahanol i'r hyn gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau sylweddol i sut yr adroddir ar fesurau perfformiad. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon, bellach nid oes cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, lefel yr awdurdod lleol na chonsortia. Felly y tu hwnt i gymhariaeth â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodol ar gael.

***Newidiadau i Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen***

Ym mis Hydref 2014, cafodd Meysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod wedi'u halinio â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y FfLlRh) ac fel eu bod nhw'n gofyn llawer mwy. Yn unol â hyn, cafodd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen eu haddasu er mwyn eu halinio â disgwyliadau uwch y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Cafodd y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno ar sail statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Golyga hyn mai'r cohort o blant a ddechreuodd yn y Derbyn ym mis Medi 2015 fydd yr un cyntaf i gael ei asesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau ar eu newydd wedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Felly, dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

***CA4 a CA5***

Diweddarwyd canlyniadau CA4 ddiwedd Rhagfyr 2018, nid oedd y diweddariad yn cynnwys data Awdurdod am y Fagloriaeth a Her Sgiliau Cymru.

**CA5 – Ôl 16**

Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer mesur perfformiad mewn chweched dosbarth ysgol ac mewn sefydliadau addysg bellach yn gwbl ar wahân. Caiff mesurau perfformiad eu cynhyrchu o systemau casglu data gan ddefnyddio methodolegau dadansoddi gwahanol. Golyga hyn na allwn gymharu deilliannau ar draws lleoliadau dysgu mewn modd ystyrlon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar ddatblygu set o fesurau cyson (cyrhaeddiad, gwerth ychwanegol a chyrchfannau) ar gyfer sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth er mwyn gallu cyhoeddi gwybodaeth ar lefel y darparwr a Chymru gyfan yn flynyddol. Mae'r gyfres arfaethedig o fesurau perfformiad yn cynnwys:

- Cyflawniad (Cyrhaeddiad dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru)
- Gwerth ychwanegol (Y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr uwchlaw'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig fel arfer, yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhyw)
- Cyrchfannau (Cyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen at ddysgu pellach (yn cynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth). Mae datganiad ystadegol ar wahân ar gyfer cyrchfannau ar gael yn 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl 16 – Cyrchfannau dysgwyr'.

Ar gyfer 2018, mae ysgolion unigol wedi derbyn data ar y tri mesur uchod, ond nid oes data wedi ei gasglu a'i gyhoeddi ar gyfer awdurdodau.

O ganlyniad mae'r adroddiad yma'n cynnwys data CA5 a gyhoeddwyd ar Ragfyr 5ed 2018 SFR 120/2018

- Canran o ddysgwyr 17 oed yn ennill y Trothwy Lefel 3 ( er mwyn cyrraedd y trothwy rhaid i ddysgwr ennill oliaf 2 A*-E Lefel A neu gyfatebol)
- Canran o ddysgwyr 17 oed yn ennill 3 A*-A
- Canran o ddysgwyr 17 oed yn ennill 3 A*-C

## 2. SAFONAU

### CYNRADD

### CYFNOD SYLFAEN

**Tabl 1**

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **86.8%** | **86.8%** | **86.6%** | **81.7%** |
| Cymru | 86.8% | 87.0% | 87.3% | 82.6% |

* Dylai cymariaethau o ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen gyda blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol.

Mae canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'r blynyddoedd blaenorol, y prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg o'r Fframwaith CS ar gyfer asesu. Mae llawer o athrawon dan yr argraff bod disgwyliadau uwch i gyrraedd Deilliant ac mae hyn yn un ffactor sydd wedi arwain felly at lai o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 5.

Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. Mae GwE wedi rhagdybio hyn ac wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd deilliannau uwch erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol.

Mae'r adroddiad gomisiynwyd gan Gwynedd ar ganlyniadau CS 2017 yn adnabod y rhesymau tebygol dros ganlyniadau Deilliant 5+ ychydig is na'r disgwyl yng Ngwynedd. Un o'r prif resymau am hyn, sy'n dangos cryfder Polisi Iaith Gwynedd, yw'r ffaith bod nifer o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn cael eu hasesu drwy'r Gymraeg ym Mlwyddyn 2; adlewyrchir hyn i raddau drwy'r asesiad Iaith Cymraeg eleni ble mae canlyniad Gwynedd ychydig is na'r ganran genedlaethol.

Mae'r adroddiad gomisiynwyd yn adnabod sawl rheswm arall all gyfrannu at ganlyniadau is, ac mae GwE a'r Adran Addysg wedi llunio cynllun gweithredu fel atodiad i'r cynllun busnes 2018-19 sydd yn ymateb i'r darganfyddiadau yma.

Mae canlyniadau y Deilliannau uwch 6+ Gwynedd yn parhau i fod yn gymharol dda. Felly er bod disgwyliadau uwch eleni i gyrraedd y Deilliant yma, mae'r ysgolion wedi codi'r lefel o her i gwrdd â'r gofynion newydd.

Y newyddion da felly yw bod mwy o ddisgyblion Gwynedd na'n genedlaethol yn cyrraedd Deilliant 6 os ydynt wedi cyrraedd y Deilliant disgwyliedig yn y lle cyntaf. Mae arweiniad gan GwE i athrawon CS ar sut i dargedu disgyblion ffiniol D5/6 wedi cyfrannu at sicrhau'r canlyniad yma.

Mae'r gwahaniaeth perfformiad rhwng y bechgyn a'r merched wedi aros yn gyson yn y Cyfnod Sylfaen dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r patrwm yna wedi parhau er y newid i'r gofynion asesu, gyda'r merched yn parhau i berfformio tua 6% yn uwch na'r bechgyn.

**CA2**

**Tabl 2**

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **89.5%** | **89.8%** | **92.1%** | **91.2%** |
| Cymru | 87.7% | 88.6% | 89.5% | 89.5% |

Mae canlyniadau CA2 Gwynedd yn parhau yn gadarn dda. Mae'r perfformiad ym mhob pwnc ar gyfer y lefelau 4 disgwyliedig yn well na'r canlyniadau cenedlaethol. Mae'r perfformiad ar y lefelau uwch 5+ hefyd yn gadarn ac yn uwch na chanlyniadau Cymru ym mhob pwnc.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Canlyniadau cymharol Deilliannau Uwch Deilliant 6+ yn y Cyfnod Sylfaen
- Canlyniadau CA2 yn enwedig yn y lefelau uwch.

**Meysydd i'w Gwella**

- Gweithredu argymhellion perthnasol adroddiad Cyfnod Sylfaen Gwynedd

**CA3**

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA3

| DPC | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **91.3%** | **92.0%** | **92.8%** | **92.8%** |
| Cymru | 83.9%% | 85.9% | 87.4% | 88.1% |

Mae perfformiad ar draws y prif ddangosyddion yn CA3 yn gadarn eto eleni. O ran y dangosydd pwnc craidd (DPC), mae perfformiad Gwynedd wedi aros yn gyson, ac mae'r perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu gostyngiad yn y ganran o ddysgwyr PYD a enillodd y dangosydd DPC. Nid oes data cenedlaethol ar gael ar hyn o bryd.

***Cymraeg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi gostwng ychydig eleni, ond yn parhau'n uwch na pherfformiad 2016. O ran cymhariaeth genedlaethol, mae perfformiad Gwynedd ychydig is ond rhaid cymryd i ystyriaeth maint y cohort lleol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na'r cyfartaledd genedlaethol.

***Saesneg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi cynyddu dros dreigl tair blynedd ac eto eleni, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelir patrwm tebyg ar un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig gyda chynnydd pellach eleni, ac yn sylweddol uwch na'r gymhariaeth genedlaethol.

***Mathemateg*** : perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg wedi cynyddu eto eleni a dros dreigl tair blynedd, ac yn uwch na'r cyfartaledd genedlaethol. Gwelwyd gostyngiad bychan ym mherfformiad Gwynedd ar un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig, ond yn parhau uwchlaw cyfartaledd Cymru.

***Gwyddoniaeth*** : gostyngiad bychan ar y lefel ddisgwyliedig ond yn parhau yn uchel, ac yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae perfformiad un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd wedi parhau yn uchel, ac yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Perfformiad Gwynedd yng nghyfnod allweddol 3 wedi parhau yn uchel , ac yn uwch ym mron pob un dangosydd o'i gymharu â'r perfformiad cenedlaethol

**Meysydd Gwella**

- Cynyddu perfformiad disgyblion PYD ar y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd

**CA4**

**Gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer arholiadau 2018**

Yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, mae anwadalrwydd sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A* i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2yp i 61.6%.

Mae TGAU yn y broses o gael eu diwygio, ac fe gafodd 15 o bynciau diweddaredig eu sefyll am y tro cyntaf yn ystod yr haf hwn.

Cafodd y gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwyddoniaeth eu harchwilio am y tro cyntaf yn 2018, ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau i'r dangosyddion perfformiad yn CA4, i gynnwys un canlyniad TGAU yn unig ar gyfer Gwyddoniaeth, fel dau fesur yn y dangosydd 9 wedi'i gapio. O ganlyniad, nid yw cymharu gyda data hanesyddol yn berthnasol. Roedd ysgolion yn gallu dilyn trywydd y llwybrau canlynol: Gwyddoniaeth (Dyfarniad Triphlyg), Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl), a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl). Gan fod y dangosydd 9 wedi'i gapio yn cynnwys dau fesur Gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dilyn y llwybrau dwbl a thriphlyg.

Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Ers Medi mae ysgolion a swyddogion wedi ceisio eglurder ynglŷn a'r rhesymau dros y cynnydd yma. Ym mis Hydref fe gyhoeddodd Cymwysterau Cymru adroddiad ar ffiniau graddau Saesneg yn benodol. Er canfyddiadau adroddiad Cymwysterau Cymru mae penaethiaid ein hysgolion uwchradd a swyddogion yn gytûn fod data ysgolion Gwynedd wedi cael eu dylanwadu'n sylweddol gan benderfyniadau cofrestriadau.

Dylid ystyried perfformiad ysgol yn ôl trywydd ei pherfformiad ei hun, gan nad yw'n briodol cymharu ysgolion â'i gilydd oherwydd y gwahanol gyd-destunau a'r gwahanol gamau gwelliant.

***<u>Dadansoddiad o ganlyniadau Gwynedd ar brif ddangosyddion Llywodraeth Cymru</u>***

Yn 2018 bu gostyngiad yng nghanran pob un o'r prif ddangosyddion mewn cymhariaeth â 2017, ac yn sylweddol felly mewn Saesneg.

| Dangosyddion | Gwynedd 2017 | Gwynedd 2018 | + / - 2017/2018 | Cymru 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **TL2+** | 58.1 | 54.6 | -3.5 | 55.1 |
| **TL2** | 70.0 | 69.5 | -0.5 | 66.9 |
| **TL1** | 97.3 | 95.9 | -1.4 | 93.6 |
| **SAESNEG** | 63.5 | 51.7 | -11.8 | 62.6 |
| **CYMRAEG** | 72.1 | 70.1 | -2 | 74.3 |
| **MATHEMATEG** | 56.4 | 55.8 | -0.6 | 59.4 |
| **RHIFEDD** | 59.6 | 58.9 | -0.7 | 58 |
| **MATHEMATEG (Gorau o'r 2)** | 62.9 | 61.5 | -1.4 | 63.5 |
| **GWYDDONIAETH** | 72.8 | 66.7 | -6.1 | 63 |
| **5A*/A** | 20.6 | 19.2 | -1.4 | 18 |
| **SGÔR CAPIO 9** | 365.8 | 360.8 | -5 | 350.1 |
| **PRESENOLDEB** | 95.2 | 94.8 | -0.4 | 93.9 |

Perfformiad yn y Gymraeg wedi aros yn gyson uchel, ond mae bwlch pryderus wedi'i amlygu rhwng perfformiad yn y Gymraeg a Saesneg. Er bod perfformiad Cymru ychydig yn uwch, mae canran disgyblion sy'n eistedd Cymraeg Iaith gyntaf yn uchel dros ben, 82% (17.3% o ddysgwyr Cymru a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Iaith gyntaf) Rhwng 2014 a 2016 roedd perfformiad Saesneg Gwynedd yn uwch na pherfformiad Cymru. Yn 2017 , a chanlyniadau cyntaf y cwrs Saesneg newydd ac ond iaith yn cyfri tuag at y dangosydd roedd perfformiad Gwynedd 0.2% islaw Cymru. Ond, yn 2018 mae

perfformiad L2 Saesneg wedi gostwng 11.8%, gyda pherfformiad wedi gostwng yn sylweddol yn yr ysgolion oedd wedi perfformio orau yn 2017.

Mae gostyngiad bychain mewn mathemateg, rhifedd a'r ganran o ddysgwyr enillodd un o'r ddau wedi effeithio'r cynnydd disgwyliedig yn nangosydd TL2+.

Oherwydd newidiadau cymhwyster Gwyddoniaeth ni ellir gwneud cymhariaeth â pherfformiad 2017. Mae perfformiad gwyddoniaeth yn galonogol gyda nifer fawr iawn o ysgolion yn agos iawn i'w targedau. Mae perfformiad Gwynedd yn uwch na Chymru

Yn gyffredinol nid oes newid arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, gyda'r bwlch wedi lleihau ychydig yn y TL2+, TL2, 5A*/A, Maths gorau, maths , rhifedd a gwyddoniaeth, ond wedi cynyddu ychydig yn y Sgôr capio 9, Saesneg a'r Gymraeg.

Ar y llaw arall mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi gostwng, yn bryderus felly ar y TL2+, ond mae perfformiad 2018 yn debyg iawn i broffil perfformiad 2014-2016. Mae'n anodd cymharu patrymau perfformiad 2017 a 2018, ond mae perfformiad disgyblion PYD Gwynedd wedi gostwng eleni ymhob dangosydd.

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Ysgolion cynhwysol a pherfformiad cadarn ar L1. Nodir hefyd bod cydweithio cryf i ddatblygu darpariaeth a chwricwlwm sydd yn eang a chytbwys.
- Perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel.
- Gwelliannau sylweddol mewn ysgolion penodol ar rai dangosyddion.

**Meysydd Gwella**

- Gwella perfformiad Saesneg a Mathemateg CA4.
- Gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim ( PYD)
- Mewn ysgolion penodol, parhau i wella ansawdd arweinyddiaeth ac arbenigeddau adrannol yn y pynciau craidd.

**<u>CA5</u>**

| Dangosyddion | Gwynedd 2017 | Gwynedd 2018 | + / - 2017/2018 | Cymru 2018 |
|---|---|---|---|---|
| % sy'n cyflawni L3 | 97.6 | 97.4 | -0.2 | 97.6 |
| % sy'n cyflawni 3 o raddau A*-A | 13.1 | 14.4 | +1.3 | 13.4 |
| % sy'n cyflawni 3 o raddau A*-C | 59.4 | 60.4 | +1.0 | 58.1 |

**Cryfderau a llwyddiannau**

- Cynnydd mewn perfformiad mewn dau o'r tri prif ddangosydd a'r ddau yn rhagori ar berfformiad Cymru

**Meysydd Gwella**

- Parhau a’r gwelliannau drwy wneud defnydd mwy effeithiol o ALPS fel offeryn gosod targedau a monitro cynnydd.

## 3. PROFFIL AROLYGIADAU

Mae proffil arolygiadau ar draws y ddau sector yng Ngwynedd yn dda. Yn ystod blwyddyn addysgol 2017-2018, bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol [14 cynradd, 4 uwchradd ac 1 arbennig].

Mewn 16 ysgol [%], dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol, ac yn y dair ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys [Adolygiad Estyn].

Nodir isod y proffil barnau ar draws y 5 maes arolygu:

| Proffil Cynradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 93.3% | 6.7% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 26.7% | 73.3% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 86.7% | 13.3% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 6.7% | 86.6% | 6.7% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 6.7% | 80.0% | 13.3% | 0% |

| Proffil Uwchradd | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| MA1 : Safonau | 0% | 50.0% | 50.0% | 0% |
| MA2 : Lles ac agweddau at ddysgu | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA3 : Addysgu a phrofiadau dysgu | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |
| MA4 : Gofal cymorth ac arweiniad | 25.0% | 75.0% | 0% | 0% |
| MA5 : Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 0% | 75.0% | 25.0% | 0% |

## 4. GOSOD TARGEDAU

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Ddatganiad Ysgrifenedig yn darparu diweddariad ar drefniadau mesur perfformiad ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019 ymlaen.

Roedd hwn yn cyflwyno mesurau perfformiad 'interim' newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 o fis Medi 2019 ymlaen (data cohort 2018/19). Bydd y mesurau 'interim' hyn, yn seiliedig ar bwyntiau, yn disodli'r gyfres gyfredol o fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, o 2019 ymlaen.

Yn y cyfnodau allweddol eraill, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi deddfu i:

- roi’r gorau i gyhoeddi data Asesiadau Athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol o 2018/19 ymlaen; a
- sicrhau mai 2016/17 fydd y flwyddyn olaf y bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi, ar lefel ysgol ac ar lefel ranbarthol, i’r cyhoedd, partneriaid, rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi rhoi ystyriaeth frys i ofynion gosod targedau'r ysgol, gyda golwg ar y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno, ac maent wedi bod yn cysylltu gyda'r sector ar sut y gellid rheoli'r

trefniadau hyn yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol angenrheidiol wedi caniatáu i LlC alinio'r gofynion statudol mor gyflym ag y buasem wedi'i ddymuno.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae disgwyl i ysgolion osod targedau terfynol, targedau wedi'u hadolygu a thargedau dros dro yn erbyn canran y disgyblion sy'n cyflawni mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2, ynghyd â thri targed yn seiliedig ar hunan arfarniadau. Mae angen i'r Awdurdod Lleol dderbyn y targedau hyn a'u cymeradwyo cyn 31 o Ragfyr fan bellaf. O gofio ein bod yn cael gwared ar fesurau trothwy, rydym yn cydnabod nad yw gofyn i ysgolion osod targedau yn erbyn yr hyn a fydd yn fesurau perfformiad ysgolion darfodedig ymhen fawr o dro yn gwneud synnwyr mwyach.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion statudol cyfredol mewn perthynas â gosod targedau ar gyfer y cyfnodau allweddol perthnasol:

| **Cyfnod Allweddol 2 (Disgyblion Blwyddyn 6)** | **Cyfnod Allweddol 3 (Disgyblion Blwyddyn 9)** | **Cyfnod Allweddol 4 (Disgyblion Blwyddyn 11)** |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r Trothwy Lefel 1 |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Mathemateg | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | |
| Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 4** neu uwch mewn Gwyddoniaeth | Canran y disgyblion sydd wedi cyflawni **Lefel 5** neu uwch mewn Mathemateg | |
| *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* | *Targed Lleol 1* |
| *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* | *Targed Lleol 2* |
| *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* | *Targed Lleol 3* |
| **Dylai'r Targedau Lleol adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy hunan arfarniadau.* | | |

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn y broses o gael gwared ar natur benodol y targedau (gan gynnwys mesurau cynhwysol Lefel 1 a Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4) er mwyn cynyddu'r **nifer o dargedau amhenodol, yn seiliedig ar ddeilliannau hunan arfarniadau**.

Mae'r broses ddeddfwriaethol ofynnol yn golygu y bydd yn amhosibl i LlC weithredu'r newidiadau arfaethedig cyn 31 Rhagfyr 2018, pan fydd disgwyl i dargedau fod wedi'u gosod a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. O ganlyniad, bydd yna gyfnod lle nad yw gofynion y rheoliadau'n adlewyrchu bwriadau na disgwyliadau LlC mewn perthynas â gosod targedau.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd angen i ysgolion ac Awdurdodau Lleol ystyried pa dargedau fuasai'n fwyaf priodol iddynt eu gosod eleni.

**Y ffordd ymlaen**

Mae hunan arfarnu effeithiol, gosod targedau effeithiol a chynllunio effeithiol ar gyfer gwelliant wrth wraidd y gwaith o sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion.

Er mwyn codi safonau, mae angen i'r proffesiwn arfarnu'n feirniadol ac, os oes angen, newid yr hyn y mae'n ei wneud a sut y mae'n gwneud hynny. Mae'r gwaith o osod targedau effeithiol yn chwarae rôl

allweddol yn y broses o godi safonau, ac mae'n rhaid ymgymryd â'r gwaith hwnnw a chynllunio ar gyfer gwelliant ar yr un pryd.

Mae gosod targedau'n caniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd a'r gwelliannau y maent yn dymuno eu gweld. Mae'n cyfrannu at effeithiolrwydd ysgol pan fydd yn cael ei wneud fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer gwelliant.

Yr hyn sy'n allweddol yw bod ysgolion yn nodi ac yn gosod **targedau gwella priodol sy'n gysylltiedig â'u blaenoriaethau gwella.** Dylid gosod y rhain fel **targedau lleol** wedi'u pennu yn y tabl uchod ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy pan fo hynny'n briodol.

Fodd bynnag, **ni all yr holl dargedau gwella fod yn feintiol.** Pe buasem yn gofyn i ysgolion osod targedau gwella clir, yna buasai'n caniatáu i'r **targed lleol** fel ag y mae i fod yn ansoddol neu'n feintiol.

Ni fuasai ysgolion ond yn rhannu eu targedau gwella allweddol (neu eu Targedau Lleol) gyda'r ALl/Consortiwm. Buasai'r Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r targedau gwella a osodir gan yr ysgolion. Staff gwella ysgolion sy'n sicrhau ansawdd y broses hon ar ran yr ALl fel arfer. Ni fyddai Targedau Lleol yn cael eu agregu ar lefel Awdurdod Lleol na rhanbarth.

Yn y cyfnod interim, bydd yn rhaid i ysgolion adrodd yn erbyn y targedau statudol penodol a ddisgrifiwyd yn y tabl uchod hyd nes y gwaredir hwy gan ddeddfwriaeth.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Ail-Strwythuro Canolfannau Iaith |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Ionawr 2019 |
| **Swyddog Perthnasol** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn hanesyddol, cyllidwyd y Canolfannau Iaith drwy grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda'r Cyngor yn darparu arian cyfatebol. Pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cyllidwyd y Canolfannau Iaith yn yr un modd drwy Grant y Gymraeg mewn Addysg (Llywodraeth Cymru) gyda'r Cyngor yn parhau i ddarparu arian cyfatebol.

1.2 Yn 2015, bu i Lywodraeth Cymru ddod â 11 o grantiau addysg yn un o dan y pennawd Grant Gwella Addysg (GGA). (Roedd hyn yn cynnwys Grant y Gymraeg mewn Addysg (GGA).) Bellach mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r GGA drwy'r consortiwm rhanbarthol (GwE), gyda phob Cyngor yn cyfrannu arian cyfatebol i'r rhanbarth cyn i'r GGA gael ei drosglwyddo o'r consortiwm rhanbarthol yn ôl i'r Cynghorau.

**2. CYD-DESTUN**

2.1 Yn 2018/19, bu toriad o 10% yn y Grant Gwella Addysg gan Lywodraeth Cymru. Golyga hynny ddiffyg o £61,000 yng nghyllideb y Canolfannau Iaith yng Ngwynedd o 2018/19 ymlaen. Eleni, llwyddwyd i bontio'r diffyg hwn, er bod toriadau wedi bod i benawdau eraill o fewn y GGA, megis y Cyfnod Sylfaen.

2.2 Ar gyfer 2019/20, derbyniwyd newyddion gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Gwella Addysg. h.y. derbyniwyd cadarnhad o setliad niwtral i'r GGA yn 2019/20. Fodd bynnag, yn sgil chwyddiant i gyflogau a phensiynau, golyga hynny ddiffyg pellach yn y gyllideb o oddeutu £35,000 o Medi 2019 ymlaen. (Nid yw Bwrdd Rheoli a Chyd-Bwyllgor GwE ychwaith wedi cyfarfod eto i gytuno ar yr union ddyraniad i benawdau'r GGA ar gyfer 2019/20.) Ar yr un pryd, mae Bwrdd Rheoli GwE hefyd wedi penderfynu cynnal adolygiad rhanbarthol o bennawd Y Gymraeg yn y GGA.

**3. SEFYLLFA GYFREDOL**

3.1 Mae strwythur staffio presennol y Canolfannau Iaith fel a ganlyn:

| Canolfan Iaith | Strwythur Staffio | Niferoedd |
|---|---|---|
| Dolgellau | Arweinydd<br>Cymhorthydd | 8 |
| Llangybi | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Maesincla | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Penrhyndeudraeth | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |
| Uwchradd Eifionydd | Arweinydd<br>Athrawes | 16 |

3.2 Mae patrwm niferoedd dysgwyr sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith Cynradd dros y 5 mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| **Niferoedd disgyblion Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd fesul tymor 2013 – 2018** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **TYMOR** | **Dolgellau** | **Llangybi** | **Maesincla** | **Penrhyn** | **Cyfanswm** |
| **CAPASITI** | **8** | **16** | **16** | **16** | |
| Gwanwyn 2013 | 6 | 7 | 13 | 11 | 37 |
| Haf 2013 | 8 | 7 | 13 | 15 | 43 |
| Hydref 2013 | 9 | 13 | 15 | 13 | 50 |
| **Cyfanswm 2013** | **23** | **27** | **41** | **39** | **130** |
| Gwanwyn 2014 | 8 | 8 | 14 | 15 | 45 |
| Haf 2014 | 26* | 4* | 16 | 10** | 64 |
| Hydref 2014 | 8 | 10 | 14 | 14 | 46 |
| **Cyfanswm 2014** | **42** | **22** | **44** | **47** | **155** |
| Gwanwyn 2015 | 8 | 11* | 11 | 14 | 44 |
| Haf 2015 | 9 | 4* | 15 | 15* | 43 |
| Hydref 2015 | 7 | 12 | 9 | 17 | 45 |
| **Cyfanswm 2015** | **24** | **27** | **35** | **46** | **132** |
| Gwanwyn 2016 | 8 | 10 | 13 | 16 | 47 |
| Haf 2015 | 11 | 6 | 16 | 19 | 52 |
| Hydref 2016 | 9 | 14 | 16 | 18 | 56 |
| **Cyfanswm 2016** | **27** | **30** | **45** | **53** | **155** |
| Gwanwyn 2017 | 10 | 13 | 13 | 15 | 51 |
| Haf 2017 | 7** | 10 | 17 | 17 | 51 |
| Hydref 2017 | 8 | 13 | 17 | 16 | 54 |
| **Cyfanswm 2017** | **25** | **36** | **47** | **48** | **156** |
| Gwanwyn 2018 | 6 + 1* | 14 | 15 | 11 | 47 |
| Haf 2018 | 5 ** / 7 * | 8 | 16 | 14 | 45 |
| **Cyfanswm 2018** | | | | | |

**4. CAMAU CYCHWYNNOL**

4.1 Yn sgil y diffyg yn y gyllideb o 2019/20 ymlaen ar gyfer y Canolfannau Iaith, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r staff ar 10 Medi 2019 er mwyn eu hysbysu o sefyllfa gyllidol y Canolfannau Iaith o 2019/20 ymlaen. Yn ystod y cyfarfod, gwahoddwyd y staff i ddod ynghyd i ystyried ym mha fodd y gellir ail-strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol i gyfarch y diffyg yn y gyllideb.

4.2 Yn dilyn y cyfarfod hwn, fe'n hysbyswyd nad oedd staff y Canolfannau Iaith yn awyddus i greu opsiynau eu hunain ar gyfer strwythur y gwasanaeth i'r dyfodol. Yn hytrach, eu dymuniad oedd i'r Adran Addysg ystyried a chreu'r opsiynau, gyda chyfle iddynt hwy fynegi barn a chyflwyno sylwadau ar yr opsiynau hynny.

4.3 Ar 24 Hydref 2018, cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr Adran Addysg, Adnoddau Dynol, staff y Canolfannau Iaith, (ynghyd â'u cynrychiolwyr Undeb) i gyflwyno opsiynau er ystyriaeth ganddynt.

**5. OPSIYNAU**

5.1 Fel sail ar gyfer yr opsiynau i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith i'r dyfodol, lluniodd yr Adran Addysg y meini prawf canlynol:

| | **EGWYDDORION** | |
|---|---|---|
| 1. | Nad yw'r ail-strwythuro yn cael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid (h.y. Bod yr un nifer neu fwy o ddysgwyr yn cael mynediad at y gwasanaeth) | ✓ |
| 2. | Isafswm lefel staffio o 2 FTE ymhob Canolfan Iaith | ✓ |

5.2 Nodir hefyd nad yw unrhyw un o'r opsiynau isod yn cynnwys unrhyw newid i'r ddarpariaeth ôl-ofal, ac y rhoddir ystyriaeth i'r ôl-ofal wrth symud ymlaen gydag opsiwn ffafriedig i'r dyfodol.

**Opsiwn 1**

- Cau un Canolfan Iaith Gynradd
- Cynyddu capasiti pob Canolfan Iaith i dderbyn 19 o ddysgwyr
- Strwythur staffio o Arweinydd ac Athrawes ymhob Canolfan Iaith

**Opsiwn 2**

- Pob Canolfan Iaith yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith

**Opsiwn 3**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.

- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd, strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).
- Strwythur staffio o Arweinydd a Chymhorthydd yn y Ganolfan Iaith Uwchradd.

**Opsiwn 4**

- Pob Canolfan yn parhau'n agored.
- Capasiti Canolfan Iaith Dolgellau yn cynyddu i 16. Capasiti pob Canolfan Iaith arall yn aros yr un fath.
- Un Arweinydd ar gyfer yr holl Ganolfannau Iaith Cynradd ac Uwchradd, gyda strwythur o Athro a Chymhorthydd ymhob Canolfan Iaith (ble na lleolir yr Arweinydd).

## 6. SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD

6.1 Dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda'r staff a'r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro'r gwasanaeth i'r dyfodol.

6.2 Dyma grynodeb o sylwadau'r Undebau:

**UCAC**

Sylwadau cyffredinol:
Cadw lefel staffio yn 2 athro

Rhaid i'r athrawon fod yn:

- arbenigol ar gyfer 'trochi iaith' yn effeithiol
- brwdfrydig ac uchelgeisiol
- yn meddu ar iaith lafar o ansawdd
- gallu cynllunio gwersi byrlymus sydd wedi eu strwythuro'n ofalus i gyd-fynd â'r cwrs
- gallu adnabod ac ymateb i anghenion dysgwyr (ADY, problemau emosiynol ac ymddygiad)
- hyfforddiant a chynhaliaeth i athrawon a chymorthyddion ysgolion
- hyddysg o'r datblygiadau diweddaraf ym myd addysg
- gallu arwain canolfan yn absenoldeb y naill neu'r llall

Lleoliad y Canolfannau: Cyfle cyfartal – sicrhau bod pob ysgol o fewn cyrraedd rhesymol i Ganolfan Iaith.

Dyma grynodeb o brif sylwadau UCAC ar yr opsiynau unigol:

**Opsiwn 1**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • 2 athro arbenigol<br>• Llwyddiant y cwrs a'r gwasanaeth yn cael ei sicrhau | • Canolfan Ch yn cau yn cael effaith ar yr ardal (ble lleolir y ganolfan).<br>• Taith gynyddol o ran ysgolion i'r Ganolfan Iaith agosaf |

| | |
|---|---|
| • Canolfan yn parhau ymhob ardal o Wynedd | • 1 ardal heb Ganolfan Iaith<br>• Colli swyddi athrawon arbenigol |

**Opsiwn 2**

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| • Lleoliad y Canolfannau – 1 ymhob ardal | • Colli swyddi athrawon arbenigol<br>• Cynyddu cymhareb athro : disgybl<br>• Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn:<br>- strwythur y cwrs -<br>cyfrifoldeb am y dysgwr -<br>cludiant -<br>rhieni<br>• Ni all athro llanw gamu i mewn yn ddieithr<br>• Colli cyfleoedd i rannu arfer dda<br>• Gwanhau'r gynhaliaeth i ddysgwyr unigol<br>• Strategaeth ôl-ofal ddim mor effeithiol |

**Opsiwn 3**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau Iaith. |

**Opsiwn 4**
Yn ychwanegol i'r sylwadau ar gyfer Opsiwn 2 a 3:

| CRYFDER | GWENDID |
|---|---|
| | • Canolfan A (Canolfan yr Arweinydd) yn aneffeithiol yn sgil y cyfrifoldeb am yr holl Ganolfannau cynradd ac uwchradd.<br>• 1 Arweinydd yn gyfrifol am y cynradd a'r uwchradd heb ddealltwriaeth o un sector |

**6.3 NEU**
Dyma grynodeb o brif sylwadau undeb NEU:

- Hanfodol osgoi teithio gormodol i ddisgyblion ac ni ellir cadw'r egwyddor bwysig hon pe byddai un o'r canolfannau'n cau. (Gwrthwynebu Opsiwn 1).
- Absenoldeb yr arweinydd yn creu anhrefn heb ail athro o safbwynt strwythur y cwrs.
- Ni all athro llanw gamu i mewn yn 'ddieithr'.
- Gwrthwynebu unrhyw weithredu ar y cynnydd mewn costau o £35,000 hyd nes y bydd eglurder sicr o'r angen i wneud hynny.

Yn ychwanegol, gofynnodd undeb NEU:

- Sut mae ail-strwythuro yn clymu efo amcanion strategol y Cyngor i hyrwyddo’r Gymraeg a’r polisi iaith?
- Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd?

**6.4 Canolfan Iaith Dolgellau**

Derbyniwyd sylwadau gan Arweinydd a Chymhorthydd Canolfan Iaith Dolgellau fel rhan o’r ymgynghoriad.

Dyma grynodeb o’u prif sylwadau ar Opsiwn 2 – Arweinydd a Chymhorthydd:

- Mae Canolfan Iaith Dolgellau wedi bod yn gweithredu Opsiwn 2, sef athrawes a chymhorthydd ers 2002.
- Mae’r Ganolfan yn llawn gyda 100% o’r capasiti wedi ei lenwi bob tymor, ac ar adegau gyda mwy na’r capasiti o blant (hyd at 10).
- Cyflawnir gofynion y cwrs efo Athrawes a Chymhorthydd. Mae’r ddarpariaeth yn gost effeithiol ac yn rhatach na’r opsiynau eraill sydd o dan ystyriaeth.
- Yr Athrawes sydd yn cyflwyno’r gwaith dysgu’r iaith a’r Cymhorthydd sydd yn cefnogi’r dysgu. Mae cydweithio yn y dosbarth.
- Mae Canolfan Iaith Dolgarrog yn gweithio fel ‘Arweinydd ac uwch Gymhorthydd’ , ac yn derbyn hyd at 12 o blant.

**6.5 Sylwadau Rhan-ddeiliaid, Mudiadau ac Unigolion**

Fel y nodwyd eisoes, dilynwyd proses Adnoddau Dynol ar gyfer ail-strwythuro’r Canolfannau Iaith, gan felly ymgynghori gyda’r staff a’r Undebau ar opsiynau ar gyfer strwythuro’r gwasanaeth i’r dyfodol.

Er hynny, bu i’r Adran Addysg friffio rhan-ddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys:

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Fforwm Cyllid Ysgolion
- Fforwm Undebau
- Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig
- Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd

Derbyniwyd sylwadau hefyd gan fudiadau ac unigolion, gan gynnwys:

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cylch yr Iaith
- Popeth Cymraeg
- CYDAG
- RHAG
- Unigolion

Mae themâu’r sylwadau a dderbyniwyd gan fudiadau ac unigolion yn cynnwys:

- Gwrthwynebu unrhyw newid
- Ansawdd (angen am 2 athro)
- Newid demograffeg

**7. YSTYRIAETHAU ERAILL**

7.1 Gwyddwn fod Bwrdd Rheoli GwE hefyd wedi penderfynu cynnal adolygiad rhanbarthol o bennawd Y Gymraeg yn y GGA.

7.2 At hyn, gwyddwn eisoes mai setliad niwtral sydd i'r Grant Gwella Addysg ar gyfer 2019/20, ond yn sgil chwyddiant, mae hynny'n cyfateb i doriad o 5% mewn gwirionedd. Petai setliad niwtral eto yn 2020/21, byddai'n golygu toriad pellach o 5% i'r gyllideb.

7.3 Yn sgil llwyddiant cais cyfalaf i gael Canolfan Iaith ychwanegol i Fangor, bydd angen canfod ffynhonnell refeniw i staffio'r Ganolfan Iaith hon, pan ddaw i fodolaeth.

## 8. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- fynegi barn ar yr opsiynau ar gyfer ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith, ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Dyddiad | 24ain o Ionawr 2019 |
| Teitl | Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor |
| Awdur | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Aelod | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Pwrpas | I ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu o'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn yr achos fusnes cymeradwy a chynnig amlinelliad o'r trefniadau sydd mewn lle i gyfarch y sylwadau wnaethpwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ôl yn ei gyfarfod ar yr 26ain o Fedi 2017. |

**1 Cyflwyniad**

1.1 Bydd y Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o'r cynllun sydd ar droed i drosglwyddo ein Canolfannau Hamdden i gwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor. Diben yr adroddiad yma ydi i hysbysu'r Pwyllgor o'r sefyllfa diweddaraf ond gan hefyd esbonio sut y mae'r trefniadau arfaethedig yn delio gyda sylwadau'r Pwyllgor Craffu pan graffwyd yr achos fusnes ar yr 26ain o Fedi 2017.

1.2 Bydd y Pwyllgor Craffu hefyd yn cofio fod rhagor o fanylion ynglŷn a'r trefniadau llywodraethu wedi ei amlinellu ar yr 13eg o Ragfyr 2017 a fod rhai o'r sylwadau wedi'u cyfarch bryd hynny. Erbyn hyn rydym mewn sefyllfa i ymhelaethu mwy am y trefniadau a contract arfaethedig fydd yn destun i gymeradwyaeth y Cabinet yn ddiweddarach ym mis Chwefror.

1.3 Dylid nodi fod peth gwaith i'w wneud rhwng rŵan a hynny a bod y contract cynderfynol yn destun negodi gyda'r Cwmni a'i gyfreithwyr ar hyn o bryd.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried y sefyllfa bresennol ac os yw'r sylwadau gwreiddiol wedi'u cyfarch yn unol â'u disgwyliadau

**2 Y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r cynllun**

2.1 I atgoffa Aelodau, mae 3 ffrwd gwaith i'r trosglwyddiad yma, sef:

a) yr elfen comisiynu, sef yr hyn rydym yn gofyn i'r Cwmni ei ddarparu a'r amodau ar gyfer hynny. Mae hwn yn cael ei grisialu oddi fewn i ddogfennau cyfreithiol amrywiol,

b) yr elfen o sefydlu'r Cwmni, sef trefniadau rheolaethol, cyfreithiol a llywodraethol y Cwmni,

c) a'r drydedd elfen, sef y gwaith o drosi'r gwasanaeth i fod yn gweithredu fel busnes annibynnol i'r Cyngor.

2.2 Yn ystod misoedd Gorffennaf a Rhagfyr fe anfonwyd diweddariadau i holl Aelodau'r Cyngor, staff a'r budd-ddeiliaid eraill.

2.3 Ers y diweddariadau hynny mae swmp o'r gwaith wedi canolbwyntio ar fireinio'r contract a'r prydlesi. Mae'r contract wedi ei strwythuro fel y ganlyn:

2.3.1 Contract:

Atodlen 1 – Diffiniadau

Atodlen 2 – Amodau a Thelerau Cyffredinol y Contract

Atodlen 3 – Manyleb Gwasanaeth

Atodlen 4 – Darpariaethau ariannol a Swm Contract

Atodlen 5 – Perfformiad y Gwasanaethau, Adolygiadau a Monitro

Atodlen 6 - Amrywiaethau, Newid Cyfraith a Therfynu

Atodlen 7 - Ffioedd a phroses adolygu

Atodlen 8 - Adnoddau Dynol a TUPE a Phensiynau

Atodlen 9 –Datrys Anghydfod

Atodlen 10 – Cyfrifoldebau am Ynni a Dŵr, a materion ategol

Atodlen 11 – Materion Eiddo

Atodlen 12 –Polisïau sydd angen i'r Cwmni gydymffurfio a hwy

Atodlen 13 – Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau y darperir gan y Cyngor

Atodlen 14 – Rhestr o safleoedd y rheolir

Atodlen 15 – Data a Deddf Diogelu Data

Atodlen 16 – Protocol Hurio

2.3.2 Deuddeg prydles sy'n cynnwys:

Telerau a chyfamodau cyffredin i bob safle

Atodlen 1: Eiddo, hawliau a chytundebau trydydd parti

Atodlen 2: Defnydd a ganiateir

Atodlen 3: Offer sefydlog a cludadwy

Atodlen 4: Cyfrifoldebau cynnal a chadw

Atodlen 5: Arolygon Cyflwr

2.3.3 Cynllun Busnes Cwmni Byw'n Iach Cyf.

2.4 Mae'r contract yn ddogfen gyfreithiol gynhwysfawr sydd wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda chyfreithwyr arbenigol ac arbenigwr treth ar werth. Mae'r drafft presennol yn gyson gyda'r prif faterion gafodd ei gymeradwyo o fewn yr achos busnes gwreiddiol, ond mae hynny'n ddarostyngedig i unrhyw newidiadau a ddaw o'r broses negodi a/neu o'r Cabinet.

2.5 Yn ystod ei gyfarfod ar yr 26ain o Fedi 2017 bu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi graffu'r achos fusnes gan fwydo eu sylwadau a chanfyddiadau yn ôl i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn wedi hynny. Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau a wnaethpwyd ar y pryd ac yn cynnig amlinelliad o sut mae'r contract a threfniadau cysylltiedig yn eu cyfarch.

| **Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 26/09/17** | **Amlinelliad o sut mae'r cynllun yn cyfarch y sylwadau** |
|---|---|
| Cholli rheolaeth ddemocrataidd drwy'r sefydlu'r cwmni newydd. | Serch y bydd newid ym mherthynas rheoli'r Cyngor a'r Cwmni, yn yr ystyr ei fod yn trosi i fod yn berthynas gyfreithiol, bydd yr Aelod Cabinet, fel comisiynydd y Cwmni, yn atebol i'r un prosesau democrataidd. |
| Gwersi a ddysgwyd o gynghorau eraill sydd wedi mabwysiadu model tebyg. | Mae cyfres o drafodaethau wedi digwydd gyda chynghorau o Gymru a Lloegr ac mae hynny yn ei dro wedi amlygu gwahaniaethau nodweddiadol yn y modelau, a meysydd penodol o fewn rheini; mae hynny'n adlewyrchu maint trosglwyddiad o'r math yma ond hefyd amcanion, diwylliannau a gwleidyddiaeth cynghorau wrth gwrs.<br><br>Thema gyffredin oedd y pwysigrwydd cadw perthynas agos ac adeiladol rhwng y Cyngor a'r Cwmni, yn enwedig yn y cyfnod yn dilyn y trosglwyddiad. Derbyniwyd nifer o wersi o natur dechnegol a gweithredol hefyd sydd wedi hysbysu ein cynlluniau gweithredu ni. |
| Pwysigrwydd ystyried y risg o wrthdaro gan y bydd y cyfarwyddwr yn ymatebol i ddeddf y Cwmni ac i Gyngor Gwynedd. | Roedd hyn yn ystyriaeth o fewn y cynllun busnes gwreiddiol ac fe amlinellwyd y cynlluniau i leddfu'r risg yn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Cabinet ar yr 13eg o Ragfyr 2017 a 16eg o Ionawr 2018.<br><br>Ni ellir diddymu'r risg yma'n llwyr wrth gwrs ond mae aelodaeth y Bwrdd a chyfansoddiad y Cyngor yn darparu mesurau rheoli priodol. |
| Pryder ynglŷn â statws y Gymraeg mewn canolfannau hamdden a phwysigrwydd rôl y Cyngor i ddiogelu'r iaith rhag dirywiad pellach. | Roedd gwarchod a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn un o feini prawf yr achos fusnes ac yn un o'r prif ffactorau dros ddethol y model hwn. |

| | |
|---|---|
| | Fe reolir hyn yn rhannol drwy rôl y Cyngor fel perchennog llawn y Cwmni gyda’r erthyglau yn nodi mai Cymraeg fydd iaith fewnol y Cwmni. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach yn y contract sy’n gosod gofyn cytundebol arnynt i gydymffurfio a Pholisi Iaith y Cyngor. |
| Bwriad y Cwmni i gefnogi canolfannau sydd yn fethiant ariannol. | Yn unol â'r achos fusnes, mae’r contract arfaethedig yn comisiynu’r Cwmni i ddarparu 12 o ganolfannau â’r un lefel ag ystod o gyfleusterau a rhaglenni â’r gwasanaeth presennol. Petai’r Cwmni yn dymuno gwyro oddi ar hynny yna byddai angen cytundeb o flaen llaw gyda’r Cyngor. |
| Trefniant rheoli adeiladau. | Mae’r trefniadau rheoli adeiladau yn cael eu hamlinellu o fewn y prydlesi ag atodlenni’r Cyngor; mae natur y cymalau yn amrywio o hawliau penodol o ran defnydd i’r math o ymddygiadau y disgwylir i’r Cwmni ddilyn fel tenant o fewn adeiladau’r Cyngor. Mae’r cymalau yma wedi’u drafftio i adlewyrchu'r defnydd presennol o’r Canolfannau ac yn darparu mesurau rheoli ar gyfer delio ag unrhyw wyriadau. Ymysg rhai o’r nodweddion yw’r warchodaeth i unrhyw denantiaid presennol am weddill hyd eu prydlesi, cyfrifoldebau cynnal a chadw perthnasol a’r protocolau sydd i’w dilyn. |
| Arbedion staff. | Nid oedd yr achos busnes wedi pennu unrhyw arbedion staff yng nghyswllt nifer o swyddi nag amodau a thelerau gwaith. Mae rheoliadau TUPE yn gwarchod hawliau staff sy’n gysylltiedig â’r trosglwyddiad. Ers penderfyniad y Cyngor i sefydlu’r Cwmni, mae staff wedi derbyn diweddariadau cynnydd rheolaidd ac wedi cael y cyfle i fynychu cyfres o weithdai sy’n esbonio’r trosglwyddiad mewn mwy o fanylder. Ymhellach mae holl staff wedi cael y cyfle i roi mewnbwn i gynllun busnes y Cwmni.<br><br>Pe bai’r Cwmni yn dymuno gwneud unrhyw newidiadau ar raddfa sylweddol yna fe fydda hynny’n cael ei ddatgan |

| | |
|---|---|
| | yn ei gynllun busnes blynyddol, sy'n destun cymeradwyaeth gan Bennaeth Economi a Chymuned |
| Hawl y Cyngor i benodi aelodau i Fwrdd Rheoli'r Cwmni | Mae erthyglau'r Cwmni yn datgan mai'r Cyngor, fel yr unig aelod o'r Cwmni, sydd ag hawl i benodi i Fwrdd Rheoli'r Cwmni. |
| Sicrhau bod y Cwmni ddim yn mynd lawr yr un trywydd a CCG, lle nad oedd yr iaith Gymraeg yn hanfodol i swydd y cyfarwyddwr. | Mae yna wahaniaethau sylfaenol rhwng model cyfreithiol a llywodraethol CCG a Chwmni Byw'n Iach Cyf. Ni fydd y Cyngor ynghlwm a phenodiadau cyflogaeth y Cwmni ond yng nghyswllt y sylw yma mae'r contract yn gosod gofyn cytundebol ar y Cwmni i gydymffurfio a Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd. |
| Pwysigrwydd penodi arweinydd ddeinameg, rhagweithiol gyda gweledigaeth ddatblygiadol gref. | Mae Rheolwr Gyfarwyddwr wedi ei benodi, ar sail gysgodol yn y lle cyntaf gan nad yw'r Cwmni yn weithredol ac yn masnachu eto. Roedd y rhinweddau hyn wedi cael eu hymgorffori i fanyleb person a'r swydd ddisgrifiad ac yn ystyriaeth bwysig wrth wneud y penodiad. |
| Sicrhau gweledigaeth arloesol i ddatblygu'r gwasanaeth. | Cyn belled â phosib mae'r contract yn gosod gofyn ar y Cwmni i sicrhau gwelliant parhaus ac yn anelu i daro cydbwysedd priodol ar gyfer grymuso'r Cwmni i wneud hynny. Bydd y Cwmni yn cyflwyno cynllun busnes blynyddol i'r Cyngor fydd yna amlinellu ei weledigaeth ag amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod a thu hwnt. Bydd hyn yn destun cymeradwyaeth blynyddol gan Bennaeth Economi a Chymuned |
| Ymrwymiad y cwmni i weithio tuag at amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Disgwylir i'r Cwmni ymarfer y Ddeddf wrth ddarparu gwasanaethau i drigolion a chyrff eraill a gofynnir iddo arddangos hynny drwy ei gynllun busnes blynyddol. |

**3. Casgliadau**

3.1 Mae sylwadau'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn rhan werthfawr o'r broses o sefydlu Cwmni Byw'n Iach, amlinellu'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu yn y dyfodol trwy gontract, a sefydlu camau gweithredu i wneud y trosglwyddiad. Rydym wedi cymryd i ystyriaeth pob pwynt wnaed gan y Pwyllgor wrth baratoi'r gwaith a dwi'n gobeithio fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y tabl uchod.

3.2 Mae'r gwaith wedi bod yn llafurus iawn ac mae'n deg dweud ein bod fel tîm wedi dysgu cryn dipyn drwy'r broses. Er bod gwaith sylweddol i'w wneud eto cyn y trosglwyddiad, dwi'n hyderus ein bod wedi gwneud

cynnydd da fydd yn ein galluogi i gyrraedd y nod o drosglwyddo’r gwasanaeth erbyn 1 Ebrill 2019 ac wrth gwrs gyflawni arbedion allweddol i’r Cyngor.